# ADEILADU L1/2

## Dyfarniad Cyntaf Lefel 1/2 BTEC mewn Adeiladu a'r Amgylchedd Adeiledig

**Pryd gaiff ei gyflwyno:** Un prynhawn yr wythnos dros ddwy flynedd
**Teitl y Cymhwyster:** Dyfarniad Cyntaf Lefel 1/2 BTEC mewn Adeiladu a'r Amgylchedd Adeiledig
**Corff Dyfarnu:** Pearson BTEC

### Cyflwyniad i'r pwnc

Mae'r rhaglen hon wedi'i hanelu at ddysgwyr y mae disgwyl iddynt lwyddo i gael graddau C neu uwch mewn Saesneg, Mathemateg a Gwyddoniaeth ac sydd â diddordeb dilyn gyrfa mewn Adeiladu / Peirianneg Sifil.  Byddai'r rhaglen yn gallu arwain at Brentisiaeth a / neu Addysg Uwch.

### Mae cyfleoedd yn y maes hwn yn cynnwys:

- Technegydd Pensaer
- Technegau dylunio technegol
- Syrfëwr Meintiau
- Peirianneg Sifil
- Rhithrealiti a modelu 3D
- Rheoli safleoedd adeiladu

### Cynnwys y Cwrs

Bydd y cwrs hwn yn ymdrin â nifer o sgiliau arbenigol mewn Adeiladu a'r Amgylchedd Adeiledig. Bydd y cwrs yn rhoi sylfaen gadarn i ddysgwyr i astudio ar lefel uwch.

### Asesu

Bydd yr asesu yn cynnwys nifer o weithgareddau gan gynnwys: aseiniadau gwaith cwrs, asesiadau ymarferol, asesiadau dan reolaeth yn y coleg ac arholiadau ysgrifenedig.

### Costau

Bydd disgwyl i'r myfyrwyr ddarparu eu cyfarpar diogelu personol eu hunain. Mae'n bosib eu prynu gan gwmni sydd wedi'i enwi gan y coleg ac maent yn cynnwys esgidiau, trowsus a chrys polo.

Dillad diogelu personol (tua £25)